**Pwyllgor y Tŷ** **16 Hydref 2003**

**<u>Nodau ac Amcanion Swyddfa’r Llywydd ar gyfer yr Ail Gynulliad</u>**

## PWRPAS

1. Mae’r papur hwn yn gofyn am gefnogaeth Pwyllgor y Tŷ i amcanion arfaethedig Swyddfa’r Llywydd ar gyfer tymor yr Ail Gynulliad.

## CEFNDIR

2. Mae Swyddfa’r Llywydd wedi llunio Datganiad Corfforaethol yn cynnwys ei holl amcanion ar gyfer pob blwyddyn ers yn gynnar yng nghyfnod y Cynulliad Cyntaf. Dosbarthwyd hwn i Aelodau a staff, a defnyddiwyd ef fel sail i ddarparu gwasanaeth cynllunio. Cafodd y drefn hon ei datblygu ymhellach a bwriedir yn awr llunio Cynllun Corfforaethol Swyddfa’r Llywydd ar gyfer tymor yr Ail Gynulliad, a fydd yn gynllun mwy cyfansawdd na’r un blaenorol.

## MATERION SY’N CODI

3. Mae nodau ac amcanion drafft y Swyddfa Gyflwyno, a allai ffurfio sail i Gynllun Corfforaethol, wedi eu hatodi i’r papur hwn. Bwriedir iddynt fod yn ddatganiad cyffredinol o werthoedd, egwyddorion a materion blaenoriaeth y Swyddfa Gyflwyno a dylent fod yn weithredol am bedair blynedd. Caiff y datganiad hwn ei ddilyn gan gynlluniau manylach, asesiadau risg ac amcanion mesuradwy ar gyfer pob un o’r pedair blynedd, a bydd yn weithredol ar lefelau Swyddfa Gyflwyno, adrannol, is-adrannol ac unigol.

4. Mae’n holl bwysig bod Aelodau yn fodlon bod yr amodau a’r amcanion a atodir yn adlewyrchu eu gofynion am y pedair blynedd nesaf. Oherwydd hynny, gofynnir am farn Pwyllgor y Tŷ ar y ddogfen amgaeedig. Bydd yn bosibl i Bwyllgor y Tŷ adolygu’r rhai hyn yn flynyddol er mwyn cymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau annisgwyl yn eu gofynion, a bydd y Pwyllgor hefyd yn parhau i dderbyn adroddiadau ar berfformiad y Swyddfa Gyflwyno yn erbyn amcanion mesuradwy.

## CYDYMFFURFIAETH

5. Mae’r ddogfen drafft yn rhoi pwyslais ar reolaeth dda, uniondeb ac annibyniaeth, yn ogystal â cheisio sicrhau cyfle cyfartal wrth gyflogi ac wrth ddarparu gwasanaeth. Nid oes unrhyw faterion a fyddai’n rhwystro cydymffurfiaeth.

## GOBLYGIADAU ARIANNOL

6. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deilliaw o’r papur hwn.

Dianne Bevan
Dirprwy Glerc y Cynulliad

**ARGYMHELLIAD**

7. Bod Aelodau yn ystyried ac yn diwygio neu yn cymeradwyo'r datganiad drafft a atodir o nodau ac amcanion y Swyddfa Gyflwyno fel sail ar gyfer cynllunio yn ystod yr Ail Gynulliad.

**Dianne Bevan**
**Dirprwy Glerc y Cynulliad**
Hydref 2003